

Cynllun Aswiriant Bywyd Coronafeirws (Cymru) 2020 y GIG a Gofal Cymdeithasol

Taflen Ffeithiau Cymhwysra

Mae'r Cynllun wedi'i gyfyngu i unigolion a gyflogir neu sy'n ymwneud â'r GIG a'r sectorau gofal cymdeithasol neu wirfoddolwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig.

Pwy sy'n gymwys?

Mae'r cynllun yn cynnwys staff sydd:

- yn cael eu cyflogi gan gorff y GIG
- yn gweithio i sefydliadau sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'r GIG, gan gynnwys gwasanaethau ar gontract allanol neu sydd wedi'u his-gontractio
- yn gweithio ar gontract, cytundeb neu drefniant â'r GIG gan gynnwys gwasanaethau gofal sylfaenol meddygol, deintyddol, fferyllol neu offthalmig/gofal llygaid, gan gynnwys eu staff
- yn gwneud gwaith sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal a chymorth sydd naill ai wedi'u darparu neu wedi'u trefnu gan awdurdod lleol fel rhan o'i weithgarwch gwasanaethau cymdeithasol neu sydd wedi'u darparu mewn cartrefi gofal cofrestredig neu wasanaethau cymorth cartref cofrestredig

Gall staff fod:

- yn gweithio'n llawn amser neu ran-amser
- yn staff parhaol neu dros dro, gan gynnwys gweithwyr asiantaeth a staff locwm
- yn staff sydd wedi ymddeol sy'n dychwelyd i'r GIG neu gyflogwr arall
- yn fyfyrwyr sy'n ymgymryd â rolau rheng flaen cyflogedig
- yn wirfoddolwyr gofal iechyd cofrestredig
- yn fyfyrwyr ar leoliad (fel rhan o bwerau disgrisiwn Gweinidogion Cymru)

Ym maes gofal cymdeithasol, mae'r cynllun yn cynnwys staff a gyflogir neu sy'n ymwneud â gweithgarwch awdurdodau lleol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau yng nghyswllt gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill a gomisiynir gan awdurdodau lleol i ddarparu gofal a chymorth. Mae hefyd yn cynnwys pobl a gyflogir neu sy'n ymwneud â gwaith sy'n gysylltiedig â darparu gofal a chymorth mewn cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth yn y cartref, sydd wedi'u cofrestru gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Mae cynorthwyr personol a gyflogir drwy daliadau uniongyrchol i weithio gydag oedolion neu blant anabl wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.

Mae cwmpas y cynllun yn ymestyn yn fras ar draws cyflogwyr y GIG a'r sector gofal cymdeithasol o ystyried yr amrywiaeth o rolau a lleoliadau, a'r ffyrdd y gallai'r rhain newid mewn ymateb i'r pandemig.

Mae cymhwystra yn gysylltiedig â gwaith, lle y gall Gweinidogion Cymru ddod i'r casgliad rhesymol bod y person wedi cael ei heintio â'r coronafeirws wrth gyflawni ei ddyletswyddau.

Gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd

Rhaid i unigolion cymwys fod wedi'u cyflogi gan neu fod wedi bod yn ymwneud â:

- chorff y GIG
- unrhyw gorff statudol arall a gyfansoddwyd o dan ddeddfiad a wnaed gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd
- gwaith yn unol â contract gyda chorff y GIG ar gyfer darparu staff neu wasanaethau ar gyfer y gwasanaeth iechyd lle mae'r person yn ymwneud â darparu'r gwasanaethau hynny
- awdurdod lleol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd y cyhoedd
- gwaith yn unol â contract gyda chorff y GIG ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd cyhoeddus lle mae'r person yn ymwneud â darparu'r gwasanaethau hynny

Mae cyflogwyr cymwys yn cynnwys:

- Cyrff statudol sy'n cyflogi staff ar delerau ac amodau gwasanaeth y GIG:
 - Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG
 - Awdurdodau Iechyd Arbennig
- Sefydliadau gofal sylfaenol (os yw'r person neu'r cyflogwr yn meddu ar gontract, cytundeb neu drefniant cymwys):
 - Meddygon teulu a'r holl staff a gyflogir gan bractisau meddygon teulu
 - Meddygon teulu locwm
 - Ymarferwyr deintyddol a'r holl staff a gyflogir gan bractisau deintyddol
 - Fferyllwyr a'r holl staff a gyflogir gan fferyllfeydd

- Optometryddion a'r holl staff a gyflogir gan bractisau Optometreg
- Ymhlith y sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i'r GIG os ydynt yn cynnal ac yn darparu gwasanaethau yn unol â contract, cytundeb neu drefniant cymwys i ddarparu'r gwasanaethau hynny mae:
 - Darparwyr annibynnol
 - Prifysgolion
 - Staff sy'n gweithio i sefydliadau sydd â contract neu gytundeb masnachol gyda chorff y GIG i ddarparu gwasanaethau ar contract allanol neu staff dros dro i'r GIG
- Gweithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sy'n cyflawni gwasanaethau clinigol ar sail wirfoddol. Rhaid i wirfoddolwyr fod wedi'u cofrestru gydag un o'r canlynol:
 - Cyngor Meddygol Cyffredinol
 - Cyngor Deintyddol Cyffredinol
 - Cyngor Optegol Cyffredinol
 - Cyngor Osteopathig Cyffredinol
 - Cyngor Ceiropractig Cyffredinol
 - Cyngor Fferyllol Cyffredinol
 - Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
 - Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal

Ystyrir contract, cytundeb neu drefniant cymwys yn un o'r canlynol:

- contract gwasanaethau meddygol gan ddarparwyr amgen (APMS)
- contract neu gytundeb rhwng Bwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth y GIG a darparwr addysg uwch sy'n ymdrin â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'r GIG
- trefniant Archwiliad Iechyd Llygaid Cymru
- contract Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol
- contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- trefniant Gwasanaethau Offthalmig/Gofal Llygaid Cyffredinol
- trefniant Gwasanaethau Fferyllol Cyffredinol
- contract awdurdod lleol ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol
- trefniant Gwasanaeth Golwg Gwan
- cytundeb Gwasanaethau Deintyddol Personol
- cytundeb Gwasanaethau Meddygol Personol

Gweithlu Gofal Cymdeithasol

Rhaid i unigolion cymwys fod wedi'u cyflogi gan neu fod wedi bod yn ymwneud ag:

- awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol
- sefydliad neu unigolyn a gomisiynwyd neu a ariannwyd i ddarparu gofal cymdeithasol gan awdurdod lleol neu gan y GIG
- darparwr gwasanaeth cartrefi gofal neu wasanaeth cymorth yn y cartref sydd wedi'i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol
- gwasanaethau gofal cymdeithasol nad ydynt wedi'u cofrestru ag AGC ond sydd wedi'u comisiynu neu eu hariannu gan yr awdurdod lleol i ddarparu gwasanaethau

Mae hyn yn cynnwys:

- Staff mewn cartrefi gofal
- Gweithwyr gofal cartref
- Gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr gofal eraill a gyflogir gan awdurdod lleol
- Rolau eraill sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, gan gynnwys cynorthwyr personol a'r rhai sy'n gweithio mewn trefniadau byw â chymorth

Gall staff fod:

- yn gweithio'n llawn amser neu ran-amser
- yn staff parhaol neu dros dro, gan gynnwys gweithwyr asiantaeth a staff locwm
- yn staff sydd wedi ymddeol sy'n dychwelyd i'r GIG neu gyflogwr arall
- yn fyfyrwyr sy'n ymgymryd â rolau rheng flaen cyflogedig
- yn wirfoddolwyr gofal iechyd cofrestredig
- yn fyfyrwyr ar leoliad (fel rhan o bwerau disgresiwn Gweinidogion Cymru)

Rhaid i staff fod yn gweithio mewn rolau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol, gofal a ariennir gan y GIG neu ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig perthnasol gan ddarparwr cofrestredig.

Er mwyn i hawliad gael ei dderbyn, rhaid i Weinidogion Cymru fod yn rhesymol fodlon ar sail y dystiolaeth:

- bod yr unigolyn yn gymwys yn rhinwedd y gwaith neu'r gwasanaethau a gyflawnodd
- bod yr unigolyn cymwys yn agored i risg uchel o gael ei heintio â'r coronafeirws mewn amgylchiadau lle na ellid yn rhesymol osgoi'r risg honno oherwydd natur a lleoliad y gwaith y cafodd ei contractio i'w gyflawni
- bod yr unigolyn cymwys yn debygol o fod wedi cael ei heintio â'r coronafeirws yn ystod ei waith
- mai clefyd y coronafeirws oedd unig neu brif achos y farwolaeth

- bod yr unigolyn cymwys wedi dangos symptomau'r coronafeirws am y tro cyntaf o fewn y cyfnod o 14 diwrnod (neu'r cyfryw gyfnod arall ar sail tystiolaeth feddygol) o fod yn agored i'r coronafeirws yn ystod ei waith
- bod marwolaeth yr unigolyn cymwys wedi digwydd cyn dyddiad diwedd y Cynllun

Mae amgylchiadau enghreifftiol sy'n debygol o ddod o fewn y meini prawf hyn yn cynnwys lle'r oedd yr unigolyn:

- yn profi neu'n gwneud diagnosis ynghylch a yw person wedi'i heintio â'r coronafeirws neu wedi'i halogi ganddo
- mewn cysylltiad agos â pherson y mae ganddo, neu yr amheuir bod ganddo'r coronafeirws neu glefyd y coronafeirws, at ddibenion gofalu am y person, ei gefnogi, ei drin neu ddarparu gwasanaeth clinigol arall
- mewn cysylltiad â pherson y mae ganddo, neu yr amheuir bod ganddo'r coronafeirws neu glefyd y coronafeirws, mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau gofal cymdeithasol
- yn darparu unrhyw fath arall o wasanaeth o fewn yr un gweithle lle darperir y gwasanaethau a ddisgrifir uchod

Lle'r oedd yr unigolyn yn cyflawni dyletswyddau nad ydynt yn ffitio unrhyw un o'r senarios hyn, neu ei bod yn anodd cadarnhau presenoldeb y coronafeirws yn y gweithle, gwahoddir yr hawlydd i esbonio pam ei fod yn credu bod yr unigolyn yn agored i risg uchel o gael ei heintio â'r coronafeirws oherwydd natur a lleoliad y gwaith a wnaed ganddo a chaiff hyn ei ystyried yn briodol.

Cwestiynau ac Atebion am Gymhwystra

C: Nid oedd y person yn gweithio i sefydliad a restrir uchod neu nid yw'n bodloni'r meini prawf cymhwystra. A ellir ei gynnwys yn y cynllun?

A: Os nad yw achos yn bodloni'r meini prawf cymhwystra uchod, neu os nad oedd yr unigolyn yn gweithio i sefydliad a restrir uchod, gwahoddir yr hawlydd i esbonio'r math o waith o fewn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yr oedd yr unigolyn yn ei wneud a pham ei fod yn credu bod yr unigolyn yn agored i risg uchel o gael ei heintio â'r coronafeirws o ganlyniad i natur a lleoliad y gwaith hwnnw. Bydd Gweinidogion Cymru, gan ddefnyddio pwerau disgresiwn, yn asesu pa mor gymwys yw unrhyw hawliadau o'r fath ar sail y wybodaeth a ddarperir.

C: A gaiff gwirfoddolwyr eu cynnwys?

A: Mae'r cynllun yn rhoi amddiffyniad ariannol ychwanegol i staff rheng flaen sydd wedi'u cyflogi neu sy'n ymwneud â darparu gofal i bobl a gweithio mewn amgylcheddau lle mae risg uwch o gael y coronafeirws.

Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd achosion lle mae gweithwyr gofal iechyd cofrestredig sy'n gymwys yn glinigol yn gwirfoddoli mewn swydd ddi-dâl i gyflawni dyletswyddau rheng

flaen. Mae staff o'r fath yn fwy tebygol o gael eu rhoi mewn rolau rheng flaen sy'n gofyn ymdrin â chleifion ac felly mae'r cynllun yn eu cwmpasu.

C: Beth os nad coronafeirws oedd achos uniongyrchol y farwolaeth?

A: Mae'r Cynllun yn cynnwys achosion lle mai clefyd y coronafeirws oedd unig neu brif achos y farwolaeth. Gall Gweinidogion Cymru hefyd ystyried ceisiadau sy'n ymwneud ag achosion lle nad yw coronafeirws wedi ei restru ar dystysgrif marwolaeth yr ymadawedig, ond lle'r oedd y person yn darparu gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol yn uniongyrchol i bobl a chanddynt y coronafeirws a bod cyflawni'r swyddogaethau hynny yn debygol o fod wedi cyfrannu at farwolaeth y person. Mewn achosion o'r fath, gall Gweinidogion Cymru, gan ddefnyddio pwerau disgresiwn, farnu bod y farwolaeth yn gymwys.

C: Beth yw ystyr rhesymol fodlon? Sut y caiff achosion eu hasesu?

A: Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru fod yn rhesymol fodlon bod y meini prawf cymhwystra uchod wedi'u bodloni er mwyn gwneud taliad. Mae hyn yn golygu y bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r datganiadau a ddarperir drwy'r broses hawlio ac yn unol â thelerau'r cynllun.